***Statws** This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.*

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2012 Rhif 2499 (Cy.274) (C.98)

# TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

## Gorchymyn Deddf Diogelu Rhyddidau 2012 (Cychwyn Rhif 1) (Cymru) 2012

| | | |
|---|---|---|
| *Gwnaed* | - - - - | *1 Hydref 2012* |

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 120(2) a (3) o Ddeddf Diogelu Rhyddidau 2012(**1**).

**Enwi, cymhwyso a dehongli**

**1.**—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Deddf Diogelu Rhyddidau 2012 (Cychwyn Rhif 1) (Cymru) 2012.

(2) Mae'r Gorchymyn hwn yn gymwys o ran Cymru.

(3) Yn y Gorchymyn hwn ystyr "y Ddeddf" ("*the Act*") yw Deddf Diogelu Rhyddidau 2012.

**Y diwrnod penodedig**

**2.**—(1) Daw darpariaethau'r Ddeddf a restrir ym mharagraff (2) isod i rym ar 1 Hydref 2012.

(2) Y darpariaethau y cyfeirir atynt ym mharagraff (1) uchod yw—

(a) Adran 56; a

(b) Atodlen 4.

*Carl Sargeant*
Y Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau,
un o Weinidogion Cymru.

1 Hydref 2012

(**1**) 2012 p.9.

## EXPLANATORY NOTE

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Cafodd Deddf Diogelu Rhyddidau 2012 ("y Ddeddf") y Cydsyniad Brenhinol ar 1 Mai 2012.

Mae erthygl 2 o'r Gorchymyn hwn yn cychwyn darpariaethau ar 1 Hydref 2012 i adennill taliadau parcio heb eu talu mewn cysylltiad â pharcio cerbyd ar dir perthnasol yng Nghymru.

Diffinnir "relevant land" yn Atodlen 4 i'r Ddeddf fel tir ar wahân i briffordd sydd i'w chynnal a'i chadw ar draul y cyhoedd, man parcio a ddarperir a/neu a reolir gan awdurdod traffig neu unrhyw dir arall nad yw'n ddarostyngedig i reolaeth barcio statudol.